# Cofnodion Cyfarfod 1/5/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Ken Edwards, Rhys Evans, Huw Symonds, Eric Williams, Eluned Jones, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Sion McGuiness, Clare Mackintosh a Fiona Hopkins.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, ac fe longyfarchodd bawb o'r ardal a fu'n cymryd rhan ym Marathon Llundain yn ddiweddar.
2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 3/4/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
   i. Cyfarfod gyda'r Heddlu: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda'r Heddlu nos Fercher Ebrill 23ain. Nodwyd fod yr angen am CCTV i'r dref, a gor-yrru ger Llyn Tegid wedi ei drafod, a'i bod yn fwriad hefyd gan yr heddlu i wirio cerbydau sy'n dod i fewn i'r dref. Nodwyd fod yr heddlu yn apelio am wybodaeth leol i'w gynorthwyo gyda'u gwaith.
   ii. Lloches Bws ger Cae Croes: Nodwyd na dderbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â phanel gwydr coll un o'r llochesi.
   iii. Ysgol Ddeintyddiaeth Bangor: derbyniwyd llythyr gan Sian Gwenllian AS yn diolch am gefnogaeth y cyngor i'w hymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth i Fangor.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd fod y Tim Tacluso Ardal Ni yn dod i'r dref ddiwedd y mis, ac y byddai'n trafod yr angen i baentio arwyddion a hysbysfyrddau'r dref. Dywedodd hefyd ei fod wedi gwneud cais am arolwg o ddiogelwch palmentydd y dref. Dywedodd hefyd fod Neuadd Buddug wedi ei gwerthu. Dywedodd fod bwriad i ddatblygu tai ar safle Ysgol Bro Tegid.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is bwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod meinciau wedi ei lleoli ar Domen y Bala, a bod trefniadau i osod baner Draig Goch ar safle'r Domen ac ger Canolfan Hamdden Penllyn.

**Is Bwyllgor y Nadolig:** Cytunwyd i ymchwilio i gostau darparu goleuadau Nadolig.
**Is bwyllgor Cyllid:** Nodwyd fod angen cyfarfod o'r is bwyllgor ym mis Mehefin.
**Is bwyllgor Bioamrywiaeth:** Cytunwyd fod angen pris am focsys blodau, a bod trefniant i lenwi'r cafnau blodau fel y llynedd. Adroddwyd fod Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru yn trefnu noson codi ymwybyddiaeth y Wennol Ddu ar Fehefin 16eg.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd gwahoddiad i Agoriad Swyddogol Canolfan Bro Tegid, ac fe gytunodd y Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Eifion Roberts, Ken Edwards, Eluned Jones, Huw Symonds, Rhys Evans a Jacqui Allen i gynrychioli'r cyngor yn y digwyddiad.
**Un Llais Cymru:** Dywedodd Dilys Evans na fydd yn medru mynychu'r cyfarfod nesaf ar Fai 14eg.
Nodwyd na chafwyd cyfarfod o Gymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn na Grŵp Siopau'r Bala yn ddiweddar.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio i osod bwrdd gwybodaeth byd natur yn ardal Llyn Tegid. Cytunwyd i gefnogi'r cais.
Derbyniwyd hefyd lythyr gan berchennog Trem Tudur yn mynegi siom fod y cyngor wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio i drosi'r tŷ i fod yn dy aml feddiannaeth. Cytunwyd na allai'r cyngor newid ei safbwynt ar y cais.

*8.* **Materion Cyllid:**
   **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £13,936 yn y cyfri cyfredol, £26,979 yn y cyfri cadw a £383 yng Nghronfa'r Maer.
   ii. Nodwyd derbyn 50% o braesept 2025/2026 gan Gyngor Gwynedd.
   **iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, ac anfoneb Cyngor Gwynedd am y swm enwol o £1 am brydles Tomen y Bala.
   **iv.** Derbyniwyd diolchiadau am gymorth ariannol y cyngor gan Ambiwlans Awyr Cymru, Clwb badminton y Bala ac Eglwys Unedig Tegid a Llanfor.
   **v.** Cytunwyd i gyfrannu £200 tuag at Barc Chwarae Heol y Castell o gronfa ganolog y cyngor, a £50 i Hospis Nightingale House o Gronfa Maer y Dref.
   **vi.** Nodwyd fod cyfrifon drafft wedi eu paratoi am 2024/2025, yn barod i'w cyflwyno i Archwilio Cymru..

9. **Gohebiaeth:**
   i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd Stryd y Fron ar gau am gyfnod oherwydd gwaith hanfodol. Nodwyd y bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn y Bala ddiwedd Mai.
   ii) Fforwm Cymunedau Parc Cenedlaethol Eryri: Nodwyd y bydd cyfarfod o'r fforwm ar Fai 8fed, a gofynnwyd i'r clerc gynrychioli'r cyngor.
   iii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Gyfarfod Blynyddol 2025, Bwletin gwybodaeth a Rhaglen Hyfforddiant.

iv) Dwr Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod ar Fai 13eg i drafod y gwaith ar Lyn Celyn, a dywedodd Dilys Evans y byddai’n cynrychioli’r cyngor yn y cyfarfod.

v) Cystadleuaeth Pysgota Canŵ: Derbyniwyd llythyr yn gwrthwynebu cystadleuaeth ar Lyn Tegid ym mis Medi. Cytunwyd i drafod y mater gyda Warden y Llyn.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

Nid oedd materion ychwanegol i’w hychwanegu.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 5 Mehefin 2025.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)